Growing with Autism
Tyfu gydag Awtistiaeth
www.ASDinfoWales.co.uk

# Creu Proffil Plentyn

**Mae pob plentyn ag ASD yn wahanol, ac mae ganddynt ddwy set o gryfderau ac anawsterau. Mae gan bob plentyn ddiddordebau gwahanol ac yn mwynhau gweithgareddau gwahanol. Gall pethau sy'n ymlacio un plentyn beri gofid i blentyn arall. Bydd pob plentyn ag awtistiaeth yn profi symptomau craidd awtistiaeth, ond bydd y ffordd y cânt eu heffeithio yn amrywio rhwng plant ac yn newid dros amser.**

**Am fod gan eich plentyn gryfderau ac anghenion unigol, mae'n ddefnyddiol creu proffil ar gyfer eich plentyn. Gellir wedyn rhannu'r proffil gydag unrhyw un sy'n cefnogi eich plentyn, o staff meddygol i hyfforddwyr nofio, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r ffordd orau o ryngweithio gyda nhw a'u cefnogi.**

**Gall defnyddio proffil helpu i osgoi anawsterau, atal camsyniadau a sicrhau bod cysondeb o ran gofal eich plentyn.**

Gallwch greu proffil plentyn am ddim yn www.ASDinfoWales.co.uk/child-profile a'i argraffu a'i gadw ar eich cyfrifiadur, neu gallwch greu un eich hun.

Dylai proffil plentyn gynnwys:

- Enw eich plentyn
- Manylion cyswllt mewn argyfwng
- Manylion anawsterau penodol eich plentyn, a sut i'w cefnogi (fel 'Rwy'n cael anhawster yn deall iaith gymhleth, defnyddiwch ymadroddion syml')
- Manylion y gweithgareddau y mae eich plentyn yn eu mwynhau
- Manylion y pethau sy'n peri gofid i'ch plentyn
- Manylion y ffyrdd o dawelu eich plentyn os yw'n ofidus

Os bydd plentyn yn cario'r proffil gyda nhw, neu'n ei rannu mewn sawl sefyllfa, rydym yn eich annog i ystyried a yw'n ddiogel cynnwys llun o'ch plentyn neu beidio, am y gallai fod yn beryglus os yw'r proffil yn mynd ar goll.

Mae templed o broffil oedolyn, a all fod yn fwy addas ar gyfer y glasoed hŷn, hefyd ar gael yn www.ASDinfoWales.co.uk/adult-profile.